# Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau – HND (Amser-Llawn)

Bydd y rhaglen hon yn gweddu i fyfyrwyr sy'n dymuno datblygu ystod eang o sgiliau twristiaeth, digwyddiadau a busnes. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r mewnwelediad angenrheidiol i chi ddatblygu dealltwriaeth o reoli twristiaeth, busnes a digwyddiadau yn fwy effeithiol. Mae hwn wedi'i leoli yn yr adran Rheoli Twristiaeth Busnes (BTM).

Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

**Cod UCAS:** 098N

## Gofynion Mynediad

Mae'r meini prawf mynediad yn nodweddiadol, ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais ar ei ben ei hun sy'n golygu y gallwn roi cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, prof l personol a phro ad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas a^'ch cynnig, cysylltwch a^'n Ti^m Derbyniadau. Cynnig nodweddiadol: 1 Safon Uwch gradd C neu 2 Safon Uwch Gradd E brof l MP/PPP mewn cymhwyster Lefel 3 BTEC a 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol).

## Rhagolygon Gyrfa

Gallwch symud ymlaen i radd atodol BA Lefel 6. Mae gan raddedigion ragolygon cyflogaeth mewn ystod eang o ddisgyblaethau twristiaeth a digwyddiadau, er enghraifft: cynadledda a rheoli digwyddiadau, ymgynghoriaeth twristiaeth a chynllunio, gweithrediadau teithiau, y diwydiant cwmnïau hedfan, marchnata, lletygarwch, manwerthu a rheoli adnoddau dynol.

## Modiwlau'r cwrs

Bydd y rhaglen fel arfer yn cynnwys darlithoedd a sesiynau tiwtorial. Fel arfer bydd yn rhaid i chi gwblhau portffolios, cyflwyniadau, gwaith ymarferol a gwaith cwrs wrth i chi symud ymlaen, gyda rhai modiwlau yn yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn defnyddio arholiadau fel rhan o'r asesiad.

Mae Modiwlau Blwyddyn 1 yn cynnwys: Marchnata, Ymddygiad Sefydliadol, Cyflwyniad i Letygarwch, Twristiaeth a Digwyddiadau. Datblygiad Personol a Phroffesiynol Cymhwysol, Arferion Gweithredol Digwyddiad a Chyrchfannau Twristiaeth a Digwyddiad.

Mae Modiwlau Blwyddyn 2 yn cynnwys: Gweithrediadau Teithiau Rhyngwladol, Rheoli Digwyddiadau Ymarferol, Rheoli Adnoddau Dynol Cyfoes mewn Cyd-destun, Twristiaeth Dywyll, Lleoli Gwaith ar gyfer Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau, Cynaliadwyedd Twristiaeth Ryngwladol.

## Asesiad

Fel arfer bydd yn rhaid i chi gwblhau portffolios, cyflwyniadau, gwaith ymarferol, arholiadau a gwaith cwrs wrth i chi symud ymlaen.

## Costau Ychwanegol

Ymweliadau rhyngwladol er mai nodwedd o'r cwrs yw'r £ 500 a roddir i fyfyrwyr ar gyfer ymweliad tramor mawr Blwyddyn 2. Teithio i'ch lleoliad gwaith ac oddi yno.

### DULL ASTUDIO

FT

### LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS

2Y